

## Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru

### Datblygu'r Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd y Cambria i reoli ac ehangu eu cadwyn gyflenwi fer

#### Adroddiad Terfynol

##### **Grŵp Gweithredol:**

Andrew Evans, Dol-Llys (ymgeisydd arweiniol)

Robert Lewis, Glanelan

Vincent a Marion Jones, Bryn-yr-Hesglwyn

Robert Jenkins, Cilhaul

Alun Williams, Upper Bwlchyllyn

Aileen Richardson, Ymgynghorydd Busnes Bwyd Masnachol

James Furse, Ymgynghorydd Masnachol

##### **Arbenigwyr:**

Caroline Hanna a Bethan Reynolds, Authentic Marketing

Arglwydd Newborough, Gareth Jones a Garry Jones, Ystâd Rhug

Marcus Williams, Williams Family Butchers

Cate Barrow, ADAS

Brocer Arloesedd: Emma Jones, ADAS

4 Mai 2020

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	1
Nodau'r prosiect oedd:- .....	1
Cynllun yr Arbrawf .....	1
Cam 1: Datblygu adnoddau cynhyrchwyr (Chwefror 2018 – Chwefror 2020) .....	1
Cam 2: Gweithredu adnoddau cynhyrchwyr (Chwefror 2018 – Medi 2019) .....	2
Allbynnau'r Prosiect .....	2
Methodoleg a chanlyniadau .....	3
Cam 1: Datblygu adnoddau cynhyrchwyr .....	3
Methodoleg .....	3
Gweithdy 1 - Strategaeth Farchnata: Marchnata'r 5 P .....	3
Gweithdy 2 - Cynllunio a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol/gwefan .....	4
Gweithdy 3 - Edrych ar opsiynau ar gyfer gwerthu bocsys cig .....	4
Gweithdy 4 - Datblygu gwerthiant, prosesu a logisteg .....	5
Gweithdy 5 - Sefydlu busnes bwyd bach a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer marchnata .....	6
Prosesu a chigyddiaeth cig coch .....	6
Grantiau busnes bwyd a ffrydiau ariannu eraill .....	7
Cam 2: Gweithredu adnoddau cynhyrchwyr .....	8
Methodoleg .....	8
Digwyddiad 'Cwrdd â'r Farchnad ' .....	8
Cyfarfodydd â chydweithredwyr a chwsmeriaid cadwyni cyflenwi posibl .....	8
Adnoddau ychwanegol a ddatblygwyd yn ystod y prosiect EIP .....	9
Gweithgareddau eraill a gynhaliwyd yn ystod y prosiect EIP .....	10
Datblygu gwerthiannau .....	10
Rhaglen Meincnodi Cig Coch HCC .....	10
Prosiect BeefQ .....	10
Taith Astudio Cyswllt Ffermio .....	10
Casgliadau .....	10
Manteision i'r diwydiant ffermio ehangach .....	12
Atodiad 1 – Gwybodaeth am ddarparwyr gweithdai .....	13
Atodiad 2 – Rhagolygon Cynhyrchwyr (ENGHRAIFFT) .....	14
Atodiad 3 – Y broses ar gyfer cofrestru fel busnes prosesu bwyd .....	15
Atodiad 4 - Templedi ar gyfer cyfrifo cynnyrch carcasau a thempled rhestrau prisio .....	16
Atodiad 5 - Modiwlau'r rhaglen addysg cig gyda'r bwriad o ymgeisio am ardystiad cigyddiaeth .....	18
Atodiad 6 – Diagramau o'r broses logisteg a phecynnu .....	19

## Crynodeb Gweithredol

Trwy fabwysiadu cadwyni cyflenwi bwyd byr, gall ffermwyr werthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, neu gyda chyn lleied â phosibl o gyfryngwyr, gan eu galluogi i gael mwy o reolaeth dros y broses gyfan. Mae cadwyni cyflenwi byr yn cynyddu o ran poblogrwydd gan fod defnyddwyr eisiau cynnyrch ffres, tymhorol gyda hanes a tharddiad. Mae cadwyni cyflenwi byr yn ddewis amgen i gadwyni bwyd confensiynol hwy lle nad oes gan ffermwyr bach lawer o rym bargeinio yn aml ac ni all y defnyddiwr olrhain y bwyd i gynhyrchwyr penodol.

Mae gan gadwyni cyflenwi bwyd byr y potensial i ddod â chynhyrchwyr a defnyddwyr at ei gilydd, a chynyddu gwerth ychwanegol i gynhyrchwyr yn y gadwyn fwyd. Gall hyn wella incwm ffermydd, eu gwneud yn fwy cystadleuol a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, ar yr amod bod y gadwyn yn cael ei threfnu mewn ffordd effeithlon a bod costau'n cael eu cyfrifo'n glir.

Yn 2015, sefydlodd Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria gadwyn gyflenwi fer, lwyddiannus gyda chigydd arlwyio mawr sy'n cyflenwi gwestai a bwytai o safon uchel yn Llundain a Chanolbarth Lloegr. Gweithiodd y grŵp o ffermwyr yn galed i gyrraedd y cam hwn, gyda chefnogaeth sylweddol gan arbenigwyr ar gadwyni cyflenwi a marchnata drwy fenter Mynyddoedd Cambria. Pan ddaeth Menter Mynyddoedd Cambria i ben, penderfynodd Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria mai'r cam nesaf priodol fyddai datblygu eu grŵp ymhellach er mwyn iddynt allu rheoli ac ehangu eu marchnadoedd mewn modd hunan-gynhaliol.

Nod y prosiect EIP hwn oedd cefnogi'r gadwyn gyflenwi hon yn yr hirdymor drwy roi mynediad at arbenigwyr technegol a dulliau ac adnoddau i ddatblygu'r grŵp fel endid hunangynhaliol. At hynny, roedd y sgiliau a'r adnoddau a oedd yn cael eu datblygu gan y grŵp wedi adfywio eu busnesau ffermio unigol ac wedi cynyddu eu gwydnwch.

Mae'r cynhyrchwyr yn eiriolwyr brwd dros Gig Eidion Mynyddoedd Cambria, ac fe wnaeth y prosiect hwn eu galluogi i ddatblygu a mabwysiadu'r sgiliau priodol i ymgysylltu â chwsmeriaid a thyfu eu marchnad.

### Nodau'r prosiect oedd:-

- Datblygu hyder o fewn y grŵp cynhyrchu yn eu gallu i reoli cadwyn gyflenwi fer, drwy ddarparu arbenigedd ac adnoddau technegol perthnasol i ddatblygu cadwyn gyflenwi Cig Eidion Mynyddoedd Cambria
- Datblygu dealltwriaeth o ofynion cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid
- Mynd i'r afael ag anghenion busnesau ffermio o fewn y grŵp, o ran marchnata cynnyrch yn uniongyrchol er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi byr, tymor hir
- Annog cynhyrchwyr presennol a chynhyrchwyr y dyfodol i ddatblygu eu sgiliau busnes a marchnata a'u gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi, a thrwy hynny i ddatblygu gwytnwch eu busnesau
- Ehangu'r farchnad bresennol a gyflenwir gan Gig Eidion Mynyddoedd Cambria ac ychwanegu gwerth at eu cynnyrch, er mwyn cefnogi'r gymuned leol o fewn ardal Mynyddoedd Cambria
- Datblygu strategaeth cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer y grŵp wedi i'r cyllid EIP ddod i ben

### Cynllun yr Arbrawf

Roedd pum teulu o ffermwyr a oedd yn byw o amgylch Llanidloes a Rhaeadr yn cymryd rhan yn y prosiect. Cynlluniwyd y prosiect mewn 2 gam, fel y nodir isod.

#### Cam 1: Datblygu adnoddau cynhyrchwyr (Chwefror 2018 – Chwefror 2020)

Cymerodd aelodau o'r grŵp ran mewn cyfres o weithdai manwl gydag arbenigwyr technegol, er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Strategaeth Farchnata: Marchnata'r 5 P
- Cynllunio a chyflwyno cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol/gwefan
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynlluniau bocsys cig
- Marchnata, cyfryngau cymdeithasol a sut i gyfathrebu â defnyddwyr
- Gwerthu, prosesu a logisteg
- Sefydlu busnes bwyd bach a'r cymorth marchnata sydd ar gael

- Prosesu a chigyddiaeth cig coch
- Grantiau busnes bwyd a ffrydiau ariannu eraill

## Cam 2: Gweithredu adnoddau cynhyrchwyr (Chwefror 2018 – Medi 2019)

Ail gam y prosiect oedd galluogi'r cynhyrchwyr i weithredu'r sgiliau a'r wybodaeth yr oeddent wedi'u datblygu drwy'r gweithdai. Diben y digwyddiadau hyn oedd hyrwyddo Cig Eidion Mynyddoedd Cambria. Byddai'r cynhyrchwyr yn hysbysebu'r digwyddiad, yn darparu samplau o'r cynnyrch ac yn ymgysylltu â chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid i drafod y cynnyrch. Penderfynwyd y byddai'r grŵp yn targedu darpar gwsmeriaid mewn cyfarfodydd cychwynnol ffurfiol a thrwy ddigwyddiadau corfforaethol mawr.

Trefnwyd cyfarfodydd cychwynnol ffurfiol gyda manwerthwr mawr yn y DU ym mis Chwefror 2018, lladd-dy lleol a darpar gleient allforio ym mis Mai a Mehefin 2018.

Yn y cyfamser, bu'r grŵp hefyd yn darparu cig eidion ac yn ei hyrwyddo mewn digwyddiad corfforaethol mawr, sef digwyddiad dygnwch Jaguar Landrover, 13-15 Medi 2019.

Yn ystod y gweithdai marchnata a gynhaliwyd gan Authentic Marketing, penderfynodd y grŵp ymchwilio i ddatblygu cynllun gwerthu bocsys cig eidion. Gyda chanllawiau a chymorth tîm Authentic Marketing, bu'r grŵp yn ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddir gan ddarparwyr bocsys cig eraill er mwyn hyrwyddo, casglu a chludo archebion i gwsmeriaid, yn ogystal â chynnal profion blas ar y cynhyrchion a archebwyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y sefydliadau a ddarparodd y gweithdai yn Atodiad 1.

## Allbynnau'r Prosiect

Roedd y gweithdai a ddarparwyd yng ngham cyntaf y prosiect, a'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau'r grŵp yn ystod ail gam y prosiect, yn galluogi'r grŵp i ehangu eu gwybodaeth a rhoi'r sgiliau canlynol ar waith:

- Datblygu strategaeth farchnata ar gyfer brand Cig Eidion Mynyddoedd Cambria, gan ddeall gwerth cyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.
- Nodi darpar farchnadoedd a chwsmeriaid, gan ddefnyddio gwahanol dechnegau i gyfathrebu â hwy, gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol wyneb i wyneb, digwyddiadau corfforaethol a chyfryngau cymdeithasol.
- Nodi anghenion y busnesau fferm unigol a rhoi sylw iddynt, o ran marchnata uniongyrchol.
- Deall anghenion y cwsmer, er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi byr, hirdymor.
- Cynnwys y genhedlaeth nesaf o ffermwyr o fewn y grŵp, er mwyn datblygu eu sgiliau a datblygu hunangynhaliath y gadwyn gyflenwi. Roedd y sgiliau a ddatblygwyd yn cynnwys gwerthu uniongyrchol, a chydweithio ag aelodau eraill o'r grŵp a phartion allanol, i brosesu a marchnata Cig Eidion Mynyddoedd Cambria. Roedd aelodau iau o'r grŵp yn ymgymryd â rolau megis rheoli'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'r wefan. Roedd gan holl aelodau iau'r grŵp ddiddordeb brwd yn y gweithdai cigyddiaeth. Mynegwyd diddordeb ganddynt mewn datblygu perthynas â'r cigydd lleol, gan gynnwys ei helpu ar adegau prysur a gweithio gyda'r busnes cigyddiaeth i ddatblygu cynllun gwerthu cig eidion mewn bocs.
- Mae adnoddau wedi cael eu datblygu at ddefnydd y grŵp at y dyfodol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:
  - Rhagolygon cynhyrchwyr - rheoli cyflenwad gwartheg a dangos faint o gig eidion sydd ar gael i ddarpar gwsmeriaid
  - Y broses ofynnol er mwyn cofrestru fel busnes bwyd
  - Sut mae cyfrifiadau o gynnyrch y carcas a'r rhestrau prasio'n cael eu cyfrifo
  - Modiwlau'r rhaglen addysg cig gyda'r bwriad o ymgeisio am ardystiad
  - Y prosesau gofynnol wrth ystyried logisteg a phhecynnu cynnyrch
  - Cynllun busnes y gellid ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

Mae canlyniad clir ar gyfer y prosiect wedi cael ei amlinellu, gyda'r grŵp yn cytuno i ddatblygu cynllun gwerthu cig mewn bocsys. Erbyn hyn, mae'r grŵp yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i ddatblygu'r fenter hon. Bydd y grŵp yn bwrw ymlaen i gofrestru fel busnes bwyd, gan weithio gyda chigydd lleol.

Yn y tymor hwy, mae'r grŵp yn ymchwilio i sut a ble y gallent ddod o hyd i storfeydd oergell ar gyfer Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

## Methodoleg a chanlyniadau

### Cam 1: Datblygu adnoddau cynhyrchwyr

#### Methodoleg

Nododd grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria y gweithdai yr hoffent eu mynychu ar ddechrau'r prosiect. Gan weithio gyda'r Brocer Arloesedd, nododd y grŵp ddarparwyr gweithdai a threfnwyd gweithdai addas wedi'u teilwra a oedd yn trafod y pynciau canlynol:

Pwnc y Gweithdy	Darparwr	Dyddiad y gweithdai
Strategaeth Farchnata: Marchnata'r 5 P	Caroline Hanna a Bethan Reynolds, Authentic Marketing	15/02/2018
Cynllunio a chyflwyno cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol/gwefan	Caroline Hanna a Bethan Reynolds, Authentic Marketing	05/11/2018
Ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynlluniau bocsys cig	Caroline Hanna a Bethan Reynolds, Authentic Marketing	03/12/2018
Gwerthu, prosesu a logisteg	Arglwydd Newborough a tîm Stad Rhug	07/05/2019
Sefydlu busnes bwyd bach a'r cymorth marchnata sydd ar gael	Lowri Davies, Cywain	10/06/2019
Prosesu a chigyddiaeth cig coch	Marcus Williams, Williams Family Butchers	13 diwrnod o hyfforddiant un i yn ac fel grŵp rhwng Medi 2019 a Chwefror 2020
Grantiau busnes bwyd a ffrydiau ariannu eraill	Cate Barrow, ADAS	17/02/2020

#### Gweithdy 1 - Strategaeth Farchnata: Marchnata'r 5 P

Nod y gweithdy hwn oedd datblygu sgiliau marchnata aelodau o grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria er mwyn iddynt allu datblygu a rheoli eu strategaeth farchnata eu hunain.

#### Canlyniadau'r Gweithdy

Tîm Authentic Marketing fu'n darparu'r gweithdy hwn i'r grŵp. Llwyddodd y mynychwyr i adnabod a datblygu'r canlynol ar gyfer brand Cig Eidion Mynyddoedd Cambria:

- Lleoli'r brand yn y farchnad h.y. cynnyrch premiwm neu nwydd
- Y cynnyrch a'i bwyntiau gwerthu unigryw
- Pris mewn perthynas â chynhyrchion eraill tebyg
- Lle – nodi llwybrau posibl i'r farchnad
- Hyrwyddo – sut i gyrraedd cwsmeriaid targed

#### Argymhellion a'r camau a gymerwyd

Llwyddodd y gweithdy hwn i alluogi'r grŵp i ddatblygu eu sgiliau marchnata er mwyn iddynt allu dylunio eu strategaeth farchnata. Bu aelodau'r grŵp a fynychodd y gweithdy yn adolygu eu deunyddiau marchnata a'u hegwyddorion brandio presennol, gan gytuno bod y rhain yn dal i fod yn addas er mwyn marchnata'r brand. Cytunwyd y byddai ymgyrch farchnata yn cael ei datblygu ar ôl i gwsmeriaid newydd gael eu nodi.

Llwyddodd y gweithdy hefyd i alluogi'r grŵp i ystyried sut y byddent yn defnyddio'r sgiliau marchnata newydd o fewn eu busnesau fferm unigol.

## Gweithdy 2 - Cynllunio a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol/gwefan

Nod y gweithdy hwn oedd datblygu sgiliau aelodau'r grŵp yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol ac i sicrhau eu bod yn deall manteision marchnata eu cynnyrch drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â'u gwefan eu hunain. Roedd y gweithdy hefyd yn hwyluso'r drafodaeth ynghylch pa aelodau o'r grŵp fydd yn ymgymryd â'r broses o reoli'r sianeli cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

### *Canlyniadau'r Gweithdy*

Tîm Authentic Marketing fu'n darparu'r gweithdy hwn i'r grŵp. Trafodwyd strategaethau cyfryngau cymdeithasol a sut y gellid datblygu dulliau cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gan grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria wefan a thudalen Facebook yr hoffent eu rheoli'n fwy effeithiol.

Llwyddodd y gweithdy i alluogi'r grŵp i ddeall manteision datblygu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a chynllunio'r wefan, ynghyd â rheoli a defnyddio eu hasedau brand presennol. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y strategaeth farchnata ar gyfer y grŵp.

Trafodwyd y wefan <http://cambrianmountainsbeef.co.uk/>-a sut y gellir ei rheoli a'i diweddarau. Ni all y cwmni a fu'n rheoli'r wefan yn y gorffennol (Greenweeds) barhau i wneud hynny, ac felly bydd aelodau'r grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria yn cymryd yr awenau o ran rheoli a datblygu'r wefan gyda chefnogaeth gan gwmni dylunio gwefan arall.

### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Cytunodd dau aelod o'r grŵp i ymgymryd â'r broses o reoli a datblygu sianeli cyfryngau cymdeithasol y grŵp a'r wefan. Cafodd dau gwmni a fyddai'n gallu helpu gyda diweddariadau Wordpress ar y wefan, dylunio tudalen e-fasnach a darparu hyfforddiant TG ar gyfer aelodau'r grŵp eu canfod, sef Gwe Cambrian Web a Mid Wales Design, a bu'r grŵp mewn cysylltiad â'r ddau. Bu'r aelodau mewn cysylltiad â Greenweeds ac maen nhw wedi anfon holl asedau brand y grŵp atynt, gan gynnwys portffolio gwych o luniau y gellid eu defnyddio ar ddeunyddiau marchnata.

## Gweithdy 3 - Edrych ar opsiynau ar gyfer gwerthu bocsys cig

Nod y gweithdy hwn oedd edrych ar nifer o gynlluniau bocsys cig eidion o bob rhan o'r DU a sut y gallai Cig Eidion Mynyddoedd Cambria sefydlu eu cynllun bocsys cig eu hunain.

### *Canlyniadau'r Gweithdy*

Tîm Authentic Marketing a fu'n darparu'r gweithdy hwn er mwyn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer datblygu cynllun bocsys Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

Trafododd y grŵp y dulliau y mae darparwyr bocsys cig eraill yn eu defnyddio i hyrwyddo eu cynhyrchion, casglu a dosbarthu archebion i gwsmeriaid. Yn ogystal, archebodd y grŵp gynnyrch gan ddetholiad o gynlluniau bocsys cig er mwyn profi blas y cynnyrch a archebwyd.

Archebwyd cynhyrchion cig eidion gan bedwar darparwr bocsys cig ar draws y DU. Archebwyd stecen ffolen, stecen syrlwyn, stecen ffiled a byrgys gan bob darparwr a chafodd y cynnyrch eu gwerthuso gan grŵp cynhyrchwyr Cig Eidion Mynyddoedd Cambria gan edrych ar y meini prawf canlynol:

- Rhwyddineb defnyddio'r wefan, edrychiad y wefan, disgrifiadau o'r cynnyrch, rhwyddineb archebu
- Cost dosbarthu, amser dosbarthu, diweddariadau a roddwyd ynglŷn â'r archeb, math o gwmni cludo a ddefnyddiwyd
- Ansawdd a chyfanrwydd pecynnu'r cynhyrchion, edrychiad y cynhyrchion, dyddiadau defnyddio erbyn, p'un a oedd y cynnyrch wedi cael ei rewi'n flaenorol
- Edrychiad y cynnyrch yn amrwd ac wedi'i goginio, arogl, gwedd a blas.

### Argymhellion a'r camau a gymerwyd

Roedd y grŵp yn ystyried bod dadansoddi'r cynlluniau bocsys cig a blasu'r cynnyrch yn brofiad buddiol iawn. Nododd y grŵp nifer o bwyntiau da a phwyntiau drwg, fel y manylir isod.

Pwyntiau da	Pwyntiau gwael
Y gallu i gyfathrebu'n uniongyrchol â defnyddwyr	Sicrhau bod y cwsmer yn deall a yw'r cynnyrch wedi'i rewi o'r blaen neu a yw'n ffres
Dewis ehangach o opsiynau pecynnu i ddewis o'u plith	Sicrhau bod y dyddiad dosbarthu yn cael ei gyfleu i'r cwsmer wrth archebu a bod y cwsmer yn derbyn diweddariad yn ôl yr angen
Mae systemau archebu ar y we gyda lluniau clir o gynnyrch a threfn effeithlon ar gyfer rheoli archebion yn bwysig	Sicrhau bod y deunydd pecynnu yn ddigon cadarn i wrthsefyll cael ei gludo ac nad yw ansawdd y pecyn yn cael ei effeithio wrth gael ei gludo
Diweddariadau rheolaidd a chlir ar gynnydd yr archeb- mae hyn yn rheoli disgwyliadau'r cwsmer	Mewn achos lle bo cwynion am y cynnyrch, mae angen delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn briodol, gan naill ai ddarparu ad-daliad neu gynnyrch arall yn ei le

Ers y gweithdy hwn, mae'r grŵp wedi penderfynu symud ymlaen i ddatblygu cynllun bocsys cig. Fel man cychwyn, dechreuodd un o aelodau'r grŵp werthu eu byrgys cig eidion wedi'u rhewi eu hunain, wedi'u prosesu gan eu cigydd lleol, i gwsmeriaid ar eu safle carafannau. Maent yn hapus i ddefnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer cynllun bocs Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

### Gweithdy 4 - Datblygu gwerthiant, prosesu a logisteg

Nod y gweithdy hwn oedd datblygu dealltwriaeth o sut y gellid datblygu strategaeth werthu a sut y byddai cadwyn gyflenwi fer sefydledig yn ehangu eu marchnad i gynnwys cwsmeriaid adwerthu, gwasanaeth bwyd ac allforio.

### Canlyniadau'r Gweithdy

Aeth tri o aelodau grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria i weithdy gyda'r Arglwydd Newborough, Gareth Jones a Garry Jones yn Ystâd Rhug. Cafodd aelodau'r grŵp gyfarfod gyda'r Arglwydd Newborough, yn trafod strategaethau datblygu gwerthiant ar gyfer cig coch a sut i dargedu darpar gwsmeriaid. Yna, cafodd y grŵp daith o amgylch y fferm gan Gareth Jones, rheolwr y fferm, a thaith o amgylch yr uned brosesu gan reolwr yr uned, Garry Jones.



Ffigur 1: Aelodau grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria, Rob Lewis, Andrew Evans ac Alun Williams yn ymweld â'r uned brosesu yn Ystâd Rhug, Corwen.

### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Rhoddodd y gweithdy yn Ystâd Rhug gipolwg da i'r grŵp ar weithredu cadwyn gyflenwi fer gydag amrywiaeth o gwsmeriaid adwerthu, cyfanwerthu, arlwygo ac allforio. Llwyddodd hefyd i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r prosesau y dylid eu hystyried wrth reoli elfennau prosesu, logisteg a gwerthu cig coch.

Ers mynychu'r gweithdy, mae aelodau'r grŵp wedi ymchwilio i logisteg o ran ble i fynd â'u gwartheg i'w lladd a sut i'w cludo'n ôl i ffatri brosesu leol. Yn ogystal, mae aelodau'r grŵp wedi canfod uned brosesu leol a fyddai'n fodlon eu helpu i brosesu eu cynnyrch.

### *Gweithdy 5 - Sefydlu busnes bwyd bach a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer marchnata*

Nod y gweithdy hwn oedd deall beth sydd ei angen i sefydlu busnes bwyd bach ac i ddarganfod mwy am y cymorth marchnata sydd ar gael trwy raglen Cywain.

### *Canlyniadau'r Gweithdy*

Daeth Lowri Davies o raglen Cywain i gwrdd â'r grŵp i drafod sefydlu busnes bwyd bach a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer eu marchnata drwy Cywain.

Eglurwyd y byddai'n rhaid iddynt fynd trwy'r broses a nodir isod er mwyn sefydlu fel busnes bwyd bach a chael mynediad wedyn at gymorth Cywain. Awgrymwyd y dylai'r grŵp gysylltu â'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Lleol i drafod cofrestru fel busnes prosesu bwyd. Nid oes gan y grŵp uned brosesu eu hunain ar hyn o bryd, felly fe'u cynghorwyd i weithio gydag uned brosesu leol neu gigydd i ddefnyddio'u safle fel uned brosesu benodedig yn y tymor byr. Mae'r broses ar gyfer cofrestru fel busnes bwyd i'w gweld yn Atodiad 3.

Unwaith y bydd y grŵp yn cofrestru fel busnes bwyd, gallant gael cymorth marchnata gan Cywain. Mae hyn yn cynnwys mynediad i weithdai ar becynnu, cyfryngau cymdeithasol a chyllid. Mae Cywain hefyd yn rhoi cymorth i fynychu digwyddiadau bwyd a chydlynu digwyddiadau prawf fasnachu ar gyfer cynhyrchwyr newydd.

### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Nodwyd bod aelod o'r grŵp yn cysylltu â'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Lleol (EHO) i drafod sefydlu busnes bwyd. Cysylltwyd â'r EHO Lleol ac roedden nhw'n awgrymu y dylai grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria ganfod uned brosesu i weithio gyda nhw yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, cynghorodd yr EHO y dylid lleoli cyfleuster storio a phrosesu oer ar un o ffermydd aelodau'r grŵp.

Bu aelodau'r grŵp yn trafod cysylltu â chigydd lleol i ofyn a allent ddefnyddio ei uned brosesu fel eu safle ar gyfer y busnes. Ers hynny, maent wedi mynd at y cigydd ac mae wedi dweud y byddai'n hapus i ystyried gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu eu cynllun bocsys cig.

### *Prosesu a chigyddiaeth cig coch*

Nod y gweithdai hyn oedd darparu cymorth ar sgiliau cigyddiaeth uwch, arddangos cynnyrch a chymorth manwerthu aelodau'r grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria. Bydd hyn yn helpu i gynyddu gwerthiant Cig Eidion Mynyddoedd Cambria drwy gyfleoedd manwerthu a chynllun bocsys.

### *Canlyniadau'r Gweithdy*

Mynegodd sawl aelod o'r grŵp ddiddordeb mewn datblygu eu sgiliau cigyddiaeth. Ar ôl llawer o ymchwilio i ddarpariaeth y gweithdai hyn, a dod o hyd i adeiladau priodol, gofynnwyd i gigydd lleol, siop cigydd teulu Williams yn Llanidloes i ddarparu'r gweithdai.

I ddechrau, mynychodd saith aelod o'r grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria 3 gweithdy diwrnod llawn yn trafod pob agwedd ar gigyddiaeth cig coch. Darparwyd llyfrau gwaith cig coch hefyd i aelodau'r grŵp yn rhoi manylion y theori y tu ôl i gigyddiaeth cig coch (a ddarparwyd gan Raglen Addysg Cig AHDB QSM).

<https://ahdb.org.uk/trade/meat-education-programme-butchers-processors>

Roedd aelodau'r grŵp yn ystyried y tri gweithdy cyntaf yn ddiddorol iawn ac roedden nhw'n awyddus iawn i ddatblygu eu sgiliau cigyddiaeth ymhellach. Felly, trefnwyd gweithdai cigyddiaeth ychwanegol gyda chwmni Williams Family Butchers ar sail un i un. Roedd aelodau'r grŵp yn gallu cymryd rhan mewn hyd at 2 weithdy un i un fesul aelod.



*Ffigur 2: Aelodau o grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria yn cymryd rhan yn y gweithdai cigyddiaeth yn siop cigydd Williams Family Butchers, Llanidloes*



#### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Llwyddodd y gyfres hon o weithdai ennyn diddordeb mawr ymysg aelodau iau'r grŵp. Ysgogwyd yr estyniad i'r gweithdai gan y diddordeb mawr a ddangoswyd gan aelodau'r grŵp wrth ennill mwy o reolaeth a hyder dros bob cam o'r gadwyn gyflenwi. Roedd datblygu perthynas waith â'r busnes cigyddiaeth hefyd yn fodd i gynnal trafodaethau rhwng y grŵp a Williams Family Butchers i edrych ar ffyrdd o gydweithio yn y tymor hir.

Mae darpariaeth llyfrau gwaith rhaglen addysg GIG AHDB QSM wedi galluogi aelodau'r grŵp a gymerodd ran i ystyried astudio am dystysgrif cigyddiaeth achrededig.

#### *Grantiau busnes bwyd a ffrydiau ariannu eraill*

##### *Canlyniadau'r Gweithdy*

Darparodd Cate Barrow o ADAS weithdy i grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria i drafod cyfleoedd i gael mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru a ffrydiau ariannu eraill i helpu'r grŵp i sefydlu eu huned brosesu a/neu uned storio oer eu hunain.

Trafodwyd y grant busnes bwyd mwyaf perthnasol, sef y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau bwyd, gyda'r grŵp. Eglurodd Cate sut mae'r cynllun yn gweithredu a'r wybodaeth sy'n ofynnol i wneud cais. Gall y cynllun ddarparu cyllid o hyd at 40% ar gyfer prynu eiddo, gwella adeiladau a storio. Ni fydd y cynllun yn cefnogi mentrau manwerthu.

Trafodwyd ffrydiau ariannu eraill hefyd, gan gynnwys arian sydd ar gael drwy Fanc Datblygu Cymru, a all ddarparu micro fenthyciadau o hyd at £50,000.

#### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Awgrymodd Cate y dylai'r grŵp ddechrau gwerthu eu cynnyrch ar raddfa fach, er mwyn dangos bod marchnad a galw am eu cynnyrch. Gall menter ar y cyd gydag uned brosesu cig lleol neu gigydd fod yn fan cychwyn da, yn hytrach na sefydlu menter brosesu newydd.

Argymhellodd Cate y dylai'r grŵp ddatblygu cynllun busnes, yn cynnwys y manylion canlynol:

- Y farchnad darged
- Strategaeth Farchnata
- Sut y byddant yn dewis da byw a pha ladd-dy y byddant yn ei ddefnyddio

- Sut a ble y caiff carcasau eu prosesu
- Prosesau logisteg
- Pa aelodau o'r grŵp fydd yn ymgymryd â pha rolau
- Sut y bydd y grŵp yn datblygu cadwyn gyflenwi ymatebol a chystadleuol

## Cam 2: Gweithredu adnoddau cynhyrchwyr

### Methodoleg

Ar ddechrau'r prosiect, roedd y grŵp yn bwriadu trefnu digwyddiad 'Cwrdd â'r Farchnad', lle byddent yn gwahodd cwsmeriaid posibl i ddigwyddiad i hyrwyddo Cig Eidion Mynyddoedd Cambria a byddent yn defnyddio'r sgiliau yr oeddent wedi'u datblygu yn y gweithdai i hwyluso hyn.

Ar ôl trafodaethau hirfaith gyda'r grŵp, penderfynwyd y byddent yn targedu darpar gwsmeriaid ar sail un i un ac y byddent hefyd yn ceisio hyrwyddo eu cynnyrch mewn digwyddiad corfforaethol mawr.

Targedwyd nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr fel y gwelir isod;-

### Digwyddiad 'Cwrdd â'r Farchnad'

Y nod o gymryd rhan yn y digwyddiad hwn oedd defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd gan aelodau'r grŵp yn y gweithdai yng Ngham 1, i ddatblygu perthynas gydag unedau prosesu, arlwywyr, trefnwyr digwyddiadau a mynychwyr yn y digwyddiad er mwyn marchnata Cig Eidion Mynyddoedd Cambria i gynulleidfa fawr.

### Canlyniadau

Y digwyddiad corfforaethol mawr a dargedwyd oedd digwyddiad dygnwch Jaguar Land Rover ym mis Medi 2019, a gynhaliwyd ger Llanidloes. Cymerodd tua 500 o gystadleuwyr ran yn y digwyddiad ac aeth grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria at y trefnwyr i ddarparu cig eidion ar gyfer y cinio ffurfiol yn y digwyddiad, ynghyd â darparu deunyddiau marchnata i hyrwyddo eu cynnyrch. Bu aelodau o grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria yn arwain ar gydlynu hyn, drwy gysylltu gyda'r lladd-dy lleol, y cigydd lleol, arlwywyr a threfnwyr y digwyddiad.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ac roedd y cig eidion a ddarparwyd yn cael ei ganmol gan yr arlwywr a mynychwyr y digwyddiad. Un o'r prif agweddau a dderbyniodd ganmoliaeth oedd blas y cig eidion a'r cyfnod yr oedd y cig wedi cael ei aeddfedu (3 wythnos). Roedd y grŵp yn cytuno bod y lefel hon o aeddfedu yn bwynt gwerthu unigryw pwysig (USP) ar gyfer eu cynnyrch.

### Argymhellion a'r camau a gymerwyd

Derbyniodd y grŵp adborth da iawn gan gwsmeriaid posibl. Bu Andrew Evans a Rob Lewis yn rheoli'r adborth a gafwyd a byddant yn cadw'r rhestr o gysylltiadau y bu iddynt eu cyfarfod yn ystod y digwyddiad. Pan fydd y cynllun bocsys cig eidion yn cael ei lansio, bydd y grŵp yn cysylltu gyda'r cwsmeriaid posibl hyn.

Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i gael adborth gan y rhai a oedd yn bresennol ac a gafodd flas ar y cynnyrch, yn ogystal â'r arlwywyr. Gwnaeth yr arlwywyr sylw ar safon ansawdd uchel y cig eidion. Byddent yn awyddus i ddefnyddio cig Eidion Mynyddoedd Cambria eto ar gyfer digwyddiadau lle nad oedd y pris yn ffactor cyfyngol.

### Cyfarfodydd â chydweithredwyr a chwsmeriaid cadwyni cyflenwi posibl

Nod y cyfarfodydd hyn oedd datblygu perthynas â'r lladd-dy lleol, adwerthwyr mawr ac allforwyr er mwyn datblygu cwsmeriaid newydd ar gyfer Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

### Canlyniadau

Wrth i'r grŵp ddatblygu eu hadnoddau a'u galluoedd i reoli eu cadwyn gyflenwi fer, buont hefyd yn gweithio gyda'u lladd-dy lleol i archwilio cyfleoedd i farchnata Cig Eidion Mynyddoedd Cambria drwy rwydweithiau manwerthu ac allforio. Drwy'r berthynas hon â'r lladd-dy lleol, bu aelodau'r grŵp yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd datblygu gwerthiannau gyda manwerthwr mawr o Brydain a darpar gleient allforio.

Roedd y cyfarfod â'r manwerthwr mawr yn gyfle i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r gofynion o ran cyflenwi cig eidion i fanwerthwyr. Yn ystod y trafodaethau, canfuwyd nad oedd pwyntiau gwerthu unigryw Cig Eidion Mynyddoedd

Cambria, megis aeddfedu am isafswm o 21 diwrnod, a'r potensial i gyflenwi niferoedd bach o wartheg bob wythnos, yn gydnaws â gofynion y manwerthwr. Felly ni wnaeth y berthynas hon ddatblygu ymhellach.

Rhoddodd y trafodaethau gyda'r cleient allforio posibl gyfle i'r grŵp ddatblygu dealltwriaeth fanwl o sut y gellir torri carcassau gwartheg bîff yn wahanol doriadau ar gyfer gwahanol farchnadoedd. Tynnodd y trafodaethau gyda'r allforiwr a'r lladd-dy sylw hefyd at y risg bosibl o anghydbwysedd carcass pe bai'r cleient ond yn archebu toriadau penodol ar gyfer cwsmeriaid premiwm. Gallai hyn adael y grŵp gyda llawer o gig eidion a fyddai angen marchnad wahanol.

#### *Argymhellion a'r camau a gymerwyd*

Lwyddodd y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau o'r grŵp eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o'r canlynol:

- Pwysigrwydd cysylltu a chwrdd â chwsmeriaid posibl a datblygu perthynas â nhw
- Darparu cynnyrch a deunyddiau marchnata i ddarparu gwsmeriaid a derbyn adborth ar y cynnyrch
- Darparu cynnyrch addas sy'n bodloni'r farchnad benodol maen nhw'n awyddus i'w defnyddio
- Archwilio'r cyfle i werthu toriadau premiwm drwy farchnadoedd allforio
- Deall cynnyrch cig y carcass a phroblemau'n ymwneud â diffyg cydbwysedd
- Datblygu rhagolygon ar gyfer cynnyrch a rhestrau prisio

Yn ystod y prosiect, cyhoeddodd y lladd-dy lleol na fyddai bellach yn lladd nac yn prosesu gwartheg. Felly, nid yw grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria wedi gallu parhau i weithio gyda'r lladd-dy i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cig eidion. Mae'r newid hwn yng nghapasiti'r lladd-dy lleol hefyd wedi arwain y grŵp i drafod lladd-dai eraill.

Un o brif egwyddorion y grŵp yw magu, pesgi a lladd eu gwartheg bîff yn ardal Mynyddoedd Cambria. O ganlyniad i gau'r llinell wartheg yn y lladd-dy lleol, bu'n rhaid i'r grŵp drafod ble y gallant fynd â'u gwartheg. Mae un lladd-dy arall yn ardal Mynyddoedd Cambria a allai ladd gwartheg, ond mae angen ymchwilio ymhellach i'r logisteg yn ymwneud â mynd â gwartheg i'r lladd-dy a dod â charcasau oddi yno.

#### *Adnoddau ychwanegol a ddatblygwyd yn ystod y prosiect EIP*

Yn ogystal â'r gweithdai, y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu aelodau'r grŵp yn cymryd rhan ynddynt, bu'r grŵp hefyd yn cydweithio er mwyn dod â'r canlynol ynghyd:

- Rhagolygon cynhyrchwyr – Mae'r grŵp wedi datblygu templed y gallant ei ddiweddarau'n rheolaidd i ddangos faint o wartheg wedi'u pesgi y gall pob busnes fferm yn y grŵp eu darparu i gadwyn gyflenwi Cig Eidion Mynyddoedd Cambria bob mis.
- Data ar gynnyrch cig y carcass a'r rhestr brisio - bu'r grŵp yn gweithio gyda'r lladd-dy lleol i gasglu gwybodaeth am gynnyrch cig o'r carcass. Gellir defnyddio'r wybodaeth i lunio rhestr brisio ar gyfer y grŵp a bydd yn galluogi'r grŵp i amrywio'r prisiau ar gyfer gwahanol doriadau cig. Bydd y rhestr brisio'n cael ei defnyddio i gyfrifo'r elw sydd angen i bob aelod ei wneud ar y gwartheg sy'n cael eu prosesu a'u gwerthu drwy'r grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria i sicrhau bod costau'n cael eu cwmpasu.
- Pecynnu a logisteg – Mae'r grŵp wedi archwilio'r opsiynau pecynnu a logisteg sydd ar gael ar gyfer eu cynnyrch. Ar ôl ymchwilio i gynlluniau bocsys eraill a'r gweithdai cigyddiaeth, roedd y grŵp yn gallu mynegi barn ar y math o becynnu a brandio yr hoffent eu defnyddio. Ystyriodd y grŵp y canlynol:
  - Maint y pecynnau - penderfynodd y grŵp werthu pecynnau 10kg o gig eidion, felly roedd angen bocsys/deunydd pecynnu o faint addas. Buont yn ystyried bocsys cardfwrdd a pholystyren, gan ddefnyddio tâp gyda logo'r grŵp a deunyddiau marchnata i ddal nodiadau dosbarthu a derbynebaw mewn amlen glir y gellir ei lynu ar ben y boc.
  - Pecynnau rhew i gadw'r cynnyrch yn oer – penderfynodd y grŵp edrych ar badiâu sych sy'n ysgafn ac felly nid ydynt yn ychwanegu gormod o bwysau i'r pecyn. Mae angen eu socian ac yna eu rhewi cyn eu defnyddio.
  - Logisteg – Mae'r grŵp wedi trafod opsiynau logisteg. Yn enwedig o ran derbyn carcassau o'r lladd-dy. Gan nad yw'r lladd-dy lleol bellach yn lladd ac yn prosesu gwartheg, maent yn grŵp sy'n ymchwilio i weld a allai'r lladd-dy cig eidion arall yn nalgylch Mynyddoedd Cambria ddarparu ar eu cyfer. Dewis arall fyddai defnyddio lladd-dy y tu allan i ddalgylch Mynyddoedd Cambria. Fodd bynnag, mae hyn yn

gofyn am drafodaeth bellach gyda'r grŵp gweithredol ehangach ac adolygiad o'r egwyddorion a nodwyd gan Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria. Mae angen i'r grŵp ymchwilio'n fanylach i ddefnyddio cwmnïau cludo a'r Post Brenhinol er mwyn canfod y dewis mwyaf cost effeithiol. Mae'r grŵp wedi cytuno mai eu cwsmeriaid fydd yn talu'r costau cludo.

- Amseru a sut i werthu cig eidion mewn bocsys – mae'r grŵp wedi trafod yr amseru o ran gwerthu eu cig eidion. Pan wnaethant ymchwilio i gynlluniau bocsys eraill, dim ond unwaith y mis yr oedd rhai yn gwerthu cig eidion, tra bod eraill yn gwerthu cynnyrch drwy gydol y flwyddyn. Trafodwyd hefyd pa doriadau o gig eidion y dylid eu gwerthu yn y bocsys. Gallai problemau o ran anghydbwysedd carcasu godi pe bai cwsmeriaid yn gallu dewis y toriadau a ddymument yn eu blychau yn hytrach na rhoi bocsys o doriadau iddynt a oedd yn galluogi'r grŵp i 'gydbwyso'r' carcasu.

## Gweithgareddau eraill a gynhaliwyd yn ystod y prosiect EIP

Yn ogystal â gweithgareddau craidd prosiect EIP, cymerodd grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria ran hefyd mewn nifer o weithgareddau eraill a oedd yn cydreddeg ac yn ategu'r prosiect EIP.

### Datblygu gwerthiannau

Ers sefydlu Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria, maent wedi adeiladu nifer o gysylltiadau posibl â chwsmeriaid. Yn ystod y prosiect, cysylltodd aelodau'r grŵp â nifer o'r cwsmeriaid posibl hyn i ddatblygu cyfleoedd gwerthu, ond nid yw'r un o'r cysylltiadau hyn wedi arwain at werthiant hyd yma.

Cysylltodd y grŵp â Hybu Cig Cymru (HCC) i holi ynghylch datblygiad gwerthiannau drwy eu rhwydwaith o gigyddion ym Nghlwb Cigyddion Cig Oen a Chig Eidion Cymru. Dywedodd HCC y byddai gan rai cigyddion yn ne Cymru ddi-ddordeb mewn prynu toriadau o gig eidion wedi'i aeddfedu ac wedi'u cyflenwi mewn bocsys, ac y byddai tîm HCC yn gallu cyflwyno'r grŵp i'r cigyddion yma. Er mwyn marchnata brand Cig Eidion Mynyddoedd Cambria drwy HCC, byddai'n rhaid i ddeunyddiau marchnata gynnwys logo dynodiad daearyddol gwarchoddedig (PGI) a logo Cig Eidion Cymru. Mae'r logos hyn i'w gweld ar ddeunyddiau marchnata Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

Gallai HCC hefyd ddarparu tocynnau carcasu a labeli eilaidd (gyda logos PGI a Chig Eidion Cymru arnynt), yn ôl y gofyn.

### Rhaglen Meincnodi Cig Coch HCC

Ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2018, cymerodd sawl aelod o'r grŵp ran yn Rhaglen Meincnodi cig coch HCC. Roedd y broses o weithio drwy'r rhaglen feincnodi wedi galluogi aelodau'r grŵp i ddadansoddi eu mentrau buchod sugno a defaid a meddwl am ble yr hoffent wneud gwelliannau.

### Prosiect BeefQ

Mynychodd Aelodau o Grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria rai o'r digwyddiadau a drefnwyd gan brosiect BeefQ. Mae'r grŵp yn awyddus i gymryd rhan yn y prosiect yn ôl y gofyn.

### Taith Astudio Cyswllt Ffermio

Trefnodd tri o aelodau'r grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambria daith astudio i Ogledd yr Alban er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth ynglŷn â chadwyni cyflenwi byr. Yn ystod yr ymweliad, fe wnaethon nhw fynychu digwyddiad a gynhaliwyd gan Fenter Ucheldir y Gogledd, sef grŵp cadwyn gyflenwi arall a gefnogir gan ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Yn ogystal, buont yn ymweld â chigydd a sy'n cyflenwi cig a helgig i gwsmeriaid manwerthu a'r sector arlwy, yn ogystal â rhedeg cynllun bocsys cig.

## Casgliadau

Rhoddodd y gweithdai a ddarparwyd i'r grŵp yn ystod cam cyntaf y prosiect, a'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt yn ystod ail gam y prosiect, gyfle i'r grŵp ehangu ar eu gwybodaeth a rhoi'r sgiliau canlynol ar waith:

- Datblygu strategaeth farchnata ar gyfer brand Cig Eidion Mynyddoedd Cambria, gan ddeall gwerth cyfathrebu â darpar gwsmeriaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y brand.

- Adnabod marchnadoedd a chwsmeriaid posibl, a defnyddio gwahanol dechnegau i gyfathrebu â nhw, gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol wyneb yn wyneb, digwyddiadau corfforaethol a chyfryngau cymdeithasol.
- Nodi a rhoi sylw i anghenion y busnesau fferm yn y grŵp, o ran marchnata uniongyrchol a deall anghenion y cwsmer, er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi byr, tymor hir.
- Cynnwys y genhedlaeth nesaf o ffermwyr o fewn y grŵp, er mwyn datblygu eu sgiliau a datblygu hunangynhaliadaeth y gadwyn gyflenwi. Roedd y sgiliau a ddatblygwyd yn cynnwys gwerthu uniongyrchol, a chydweithio ag aelodau eraill o'r grŵp a phartïon allanol, er mwyn prosesu a marchnata cynnyrch y grŵp. Roedd aelodau iau y grŵp yn ymgymryd â rolau megis rheoli'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y grŵp. Roedd gan holl aelodau iau'r grŵp ddiddordeb brwd yn y gweithdai cigyddiaeth. Mynegwyd diddordeb ganddynt mewn datblygu perthynas â'r cigydd lleol, gan gynnwys ei helpu ar adegau prysur a gweithio gyda'r busnes cigyddiaeth i ddatblygu cynllun gwerthu cig eidion mewn bocs.
- Mae adnoddau wedi cael eu datblygu at ddefnydd y grŵp at y dyfodol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:
  - Rhagolygon cynhyrchwyr h.y. faint o anifeiliaid y mis sydd ar gael i'r CMB.
  - Y broses ofynnol er mwyn cofrestru fel busnes bwyd
  - Cyfrifiadau o gynnyrch cig pob carcass ynghyd â rhestrau prisio
  - Modiwlau'r rhaglen addysg cig gyda'r bwriad o ymgeisio am ardystiad
  - Mynediad i ddewisiadau pecynnu a logisteg
  - Cynllun busnes drafft y gellir ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau am gyllid

Mae canlyniad clir ar gyfer y prosiect wedi cael ei amlinellu, gyda'r grŵp yn cytuno i ddatblygu cynllun gwerthu cig mewn bocsys. Erbyn hyn, mae'r grŵp yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i ddatblygu'r fenter hon. Bydd y grŵp yn bwrw ymlaen i gofrestru fel busnes bwyd, gan weithio gyda chigydd lleol.

Yn y tymor hwy, mae'r grŵp yn ymchwilio i sut a ble y gallent ddod o hyd i storffeydd oergell ar gyfer Cig Eidion Mynyddoedd Cambria.

Felly, bydd y grŵp yn rhoi'r strategaeth isod ar waith i ddatblygu eu marchnadoedd. Y prif ffocws fydd datblygu cynllun bocsys cig yn y tymor byr i ganolig.

Y camau nesaf	Amserlen	Pwy sy'n gyfrifol
Ymchwilio a phenderfynu pa ladd-dy i'w ddefnyddio i ladd gwartheg bïff Mynyddoedd Cambria	6 mis (Mai 2020 – Hydref 2020)	Rob Lewis i ymchwilio i gyfleoedd gyda lladd-dy Tregaron Andrew Evans i ymchwilio i gyfleoedd gyda lladd-dy Wrecsam
Datblygu cytundeb ffurfiol gyda Williams Family Butchers i ddarparu cyfleusterau prosesu ar gyfer Cig Eidion Mynyddoedd Cambria ac archwilio'r cyfleoedd ar gyfer menter ar y cyd	6-12 mis (Mai 2020 – Mai 2021)	Andrew Evans, Rob Lewis ac Alun Williams i weithio gyda Marcus Williams i ddatblygu cytundeb sy'n dderbyniol i bawb sy'n gysylltiedig
Cofrestru fel busnes bwyd gyda'r Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd Lleol	6-12 mis (Mai 2020 – Mai 2021)	Bydd Andrew Evans yn symud ymlaen gyda'r broses gyda'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Lleol
Dechrau rheoli'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol a chyflogi cwmni dylunio gwefannau i ddarparu diweddariad ar Wordpress ac i gynnig cefnogaeth e-fasnach.	6 mis (Mai 2020 – Hydref 2020)	Bydd Richard Evans a Luke Williams yn cydweithio i gytuno ar hyn.
Rheoli asedau brand a marchnata Cig Eidion Mynyddoedd Cambria trwy'r wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol	6-12 mis (Mai 2020 – Mai 2021)	Richard Evans a Luke Williams i ddatblygu'r cyfryngau cymdeithasol a'r broses o reoli'r wefan a'r strategaeth farchnata
Cynnal hyfforddiant hylendid bwyd a HACCP	6 mis (Mai 2020 – Hydref 2020)	Rhaid nodi aelodau'r grŵp a fydd yn cymryd rhan yn hyn a nodi darparwr hyfforddiant

Y camau nesaf	Amserlen	Pwy sy'n gyfrifol
Diweddarau'r rhagolwg cynhyrchwyr a'r rhestr brisio	Parhaus	Rob Lewis, Andrew Evans ac Alun Williams i reoli'r prosesau hyn
Gweinyddu parhaus	Parhaus	Bydd Marion Jones yn parhau i weithredu fel ysgrifennydd cwmni ar ran y grŵp
Datblygu cynllun busnes drafft i'w ddefnyddio i wneud cais am gyllid yn y dyfodol i ddatblygu safle prosesu parhaol ar gyfer y Grŵp	1 – 2 flynedd	Bydd aelodau'r grŵp yn trafod pa ffrydiau ariannu y byddant yn eu targedu ac ar gyfer beth fydden nhw'n defnyddio'r cyllid

### Manteision i'r diwydiant ffermio ehangach

Mae nifer o fanteision i'r prosiect y gallir eu rhannu gyda'r diwydiant ffermio ehangach, sef:

- Y broses ar gyfer sefydlu busnes bwyd
- Sut i lunio rhagolwg cynhyrchwyr ar gyfer gwerthiannau gwartheg
- Deall cynnyrch cig o bob carcass a datblygu rhestr brisio
- Datblygu cysylltiadau cryf gyda lladd-dy ac uned brosesu leol
- Deall logisteg h.y. cludiant
- Dewisiadau pecynnu
- Am beth mae manwerthwyr yn chwilio?
- Meini prawf allforio

Bydd adnoddau cyfnewid gwybodaeth yn cael eu darparu ar gyfer cynhyrchwyr cynradd. Bydd y rhain yn darparu canllawiau clir ac ymarferol ar y camau y gallir eu cymryd i ddatblygu a rheoli cadwyn gyflenwi fer yng nghyd-destun ffermio masnachol. Gall yr adnoddau hyn fod ar ffurf taflenni ffeithiau a delweddau.

Nod y grŵp yw ysbrydoli ffermwyr eraill yn y diwydiant i ddatblygu cadwyni cyflenwi byr, nid yn unig i sicrhau mwy o reolaeth dros eu marchnad a'u pris, ond hefyd i hyrwyddo cig eidion a chig oen o ansawdd rhagorol sy'n cael eu magu ar y borfa, ac y gallir ei olrhain.

## Atodiad 1 – Gwybodaeth am ddarparwyr gweithdai

### *Authentic Marketing*

Mae Authentic Marketing yn cynnig strategaethau wedi'u teilwra a'u harwain gan frand sy'n sicrhau twf uchel yn y diwydiant bwyd. Yma yng nghwmni Authentic, rydym ni'n cyfuno profiad o'r radd flaenaf gyda tîm medrus er mwyn sicrhau bod amcanion eich busnes yn cael eu bodloni. Mae gwerthuso eich busnes allanol yn sicrhau trosolwg diduedd, sy'n arwain at farchnata effeithiol ac effeithlon. O gynllunio i weithredu ac adolygu canlyniadau. Ni yw eich partneriaid marchnata strategol a'ch tîm marchnata arbenigol.

Mae Authentic Marketing yn gwmni Ymgynghoriaeth Marchnata bwyd sy'n arbenigo mewn brandio, strategaeth, arloesi a chyfathrebu o fewn y sector bwyd a diod. Sefydlwyd Authentic Marketing yn 2011, ac mae'n cynnwys tîm o farchnatwyr profiadol sydd wedi ymrwymo i gyflymu twf busnesau bwyd a diod.

<https://authenticm.co.uk/>

### *Arglwydd Newborough ac Ystâd Rhug*

Mae'r Arglwydd Newborough, perchennog Ystâd Rug, yng Nghorwen, Sir Ddinbych, yn ymdrechu tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Mae ei weledigaeth wedi arwain at newid y fferm i ffermio organig, ychwanegu portffolio eang o brosiectau ynni adnewyddadwy, a pharhau i gefnogi cynnyrch lleol o Gymru.

Mae Ystâd Rhug yn ymestyn dros 12,500 erw s o Gwyddelwern yn y Gogledd, Carrog i'r dwyrain, Cynwyd i'r De a Maerdy i'r gorllewin. Y fferm organig 6,700 erw yn Sir Ddinbych yw canol daearyddol yr Ystad, a Neuadd Rhug yw'r prif breswylfa. Mae gan weddill yr ystâd oddeutu 170 o denantiaethau gan gynnwys: ffermydd rhent, coetiroedd rhent, bythynnod rhent, eiddo masnachol a storfeydd, chwaraeon traddodiadol gan gynnwys saethu a physgota, chwaraeon modern megis gyrru ceir rali, cerdded ceunentydd, beicio mynydd, canwïo a digwyddiadau cyhoeddus.

<https://rhug.co.uk/>

### *Cywain*

Rydym yn gweithio gyda busnesau bwyd a diod sy'n canolbwyntio ar dwf. Mae hyn yn cynnwys busnesau newydd sydd angen cymorth a chefnogaeth i ddechrau, a busnesau sydd eisoes wedi sefydlu sy'n dymuno tyfu.

Gall Cywain gefnogi eich busnes mewn sawl ffordd. Gallwn ddangos i chi sut i wneud eich busnes yn fwy cystadleuol; darparu cyfleoedd i gydweithio ag eraill yn y gadwyn gyflenwi; a'ch helpu i ddatblygu sgiliau newydd.

Mae gennym rwydwaith o Reolwyr Datblygu Rhanbarthol sy'n rhoi cymorth ac ymgynghoriad uniongyrchol, ac sy'n trefnu gweithgareddau grŵp gan gynnwys gweithdai, rhwydweithio a theithiau astudio.

Os oes gennych syniadau ar gyfer dechrau neu dyfu eich busnes a hoffech eu trafod gyda Cywain.

<https://menterabusnes.cymru/cywain/en/about-us/>

### *Williams Family Butchers*

Cigydd teulu a leolir yn Neuadd y Farchnad yn Llanidloes. Mae'r busnes yn cyflenwi cynnyrch lleol o ansawdd uchel i gwsmeriaid manwerthu ac arlwyo.

### *ADAS*

Mae ADAS yn darparu syniadau, gwybodaeth arbenigol ac atebion i ddiogelu ein bwyd a gwella'r amgylchedd.

Rydym yn deall cynhyrchu bwyd a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwr gan sefydliadau sy'n gweithredu yn yr amgylchedd naturiol. Ni yw'r darparwr annibynnol mwyaf yn y DU ar gyfer gwasanaethau ymgynghori amaethyddol ac amgylcheddol, gwasanaethau datblygu gwledig, ymchwil a datblygu, a chynghor ar bolisi. Gyda'n harbenigedd eang, rydym ni'n darparu cyfuniad unigryw o ddealltwriaeth a phrofiad ymarferol, wedi'u cefnogi gan wybodaeth gadarn, hyddysg, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, sy'n ein galluogi i ddarparu atebion ymarferol.


<https://www.adas.uk/>

## Atodiad 2 – Rhagolygon Cynhyrchwyr (ENGHRAIFFT)

<b>Month</b>	<b>Number of cattle available per month*</b>	<b>Producer</b>	<b>Breed</b>
<b>June</b>	<b>6</b>	A Williams, R Lewis	CH, Limx
<b>July</b>	<b>15</b>	A Williams, R Lewis, A Evans, V Jones	CH, Limx, HF, Salers
<b>August</b>	<b>17</b>	A Williams, R Lewis, A Evans, V Jones	CH, Limx, HF, Salers
<b>September</b>	<b>6</b>	A Williams, A Evans	CH & HF
<b>October</b>	<b>6</b>	A Evans	HF
<b>November</b>	<b>12</b>	A Evans	HF
<b>December</b>	<b>22</b>	A Evans, V Jones	HF, CHX
<b>January</b>	<b>15</b>	V Jones, R Jenkins	CHX, LimxHF
<b>February</b>	<b>5</b>	R Jenkins	LIMxHF
<b>March</b>	<b>5</b>	A Evans, R Jenkins	HF & Lim x
<b>April</b>	<b>8</b>	A Williams	CH
<b>May</b>	<b>6</b>	A Williams, R Lewis	CH, Limx



## Atodiad 3 – Y broses ar gyfer cofrestru fel busnes prosesu bwyd



## Atodiad 4 - Templedi ar gyfer cyfrifo cynnyrch carcasau a thempled rhestrau priso

<b>Cambrian Mountains Beef Costings</b>		
<b>Task</b>	<b>Individual Cost (£)</b>	<b>Comments</b>
<b>Compulsory Training</b>		
Food hygiene training	20	Cost per person, to be renewed every 3 years
HACCP	12	Cost per person, to be renewed every 3 years
<b>Website Support</b>		
Wordpress updates/training	120	per annum
Ecommerce page	240	training course
<b>Packaging</b>		
Boxes	127.38	50 boxes (600x400x170mm - 10kg deep)
Tape	155.96	48 rolls (72mm) first order
Ice Packs	136.08	800 non hydrated strips
Total Cost	419.42	
<b>Total Cost/ box</b>	<b>8.39</b>	Based on 50 boxes
<b>Kill &amp; Process</b>		
Lamb kill cost	25	per lamb
Cattle kill cost	100	per steer/heifer
Processing through Williams Butchers	250	Collect, hang, bone, process, pack and label
<b>Total Kill &amp; Process/per steer/heifer</b>	<b>350</b>	
<b>Cost/kg carcase weight</b>	<b>1.17</b>	

Carcase Pricing Template Feb 2020						
Average Carcase Weight (kg)	300					
GB R4L p/kg	350				<b>Total £</b>	<b>£/kg</b>
Average Deadweight Sale (£)	1050			<b>Estimated Cost (based on 20 boxes per carcase)</b>	<b>1567.77</b>	<b>5.23</b>
Average Saleable Yield	0.7493	Based on abattoir data		<b>Estimated Meat Sales (220kg of meat sold @ £10/kg)</b>	<b>2200</b>	<b>7.33</b>
Average Saleable Yield (kg)	224.79			<b>Difference</b>	<b>632.23</b>	<b>2.11</b>
<b>Cuts Yield</b>	<b>%</b>	<b>Average weight (kg)</b>	<b>Wholesale price (£/kg)</b>	<b>Wholesale (£)</b>	<b>Retail Price (£/kg)</b>	<b>Retail (£)</b>
Topside	0.0587	17.61		0	10	176.1
Silverside	0.0592	17.76		0	10	177.6
Knuckle	0.0374	11.22		0	10	112.2
Trim	0.2357	70.71		0	6	424.26
Shin/ shank	0.0167	5.01		0	10	50.1
Sirloin b/in	0.0785	23.55		0	20	471
Fillet Chain o	0.0154	4.62		0	35	161.7
Fillet Tail	0.0005	0.15		0	35	5.25
Rib on bone	0.0474	14.22		0	15	213.3
D-cut Rump	0.0368	11.04		0	15	165.6
Brisket	0.0169	5.07		0	10	50.7
LMC	0.0281	8.43		0	6	50.58
Neck	0.071	21.3		0	6	127.8
Chuck	0.0125	3.75		0	10	37.5
Short Rib	0.0338	10.14		0	20	202.8
<b>Total Saleable Meat</b>	<b>0.7486</b>	<b>224.58</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>218</b>	<b>2426.49</b>


## Atodiad 5 - Modiwlau'r rhaglen addysg cig gyda'r bwriad o ymgeisio am ardystiad cigyddiaeth

Darparwyd llyfrau gwaith cig coch hefyd i aelodau'r grŵp yn rhoi manylion y theori y tu ôl i gigyddiaeth cig coch (a ddarparwyd gan Raglen Addysg Cig AHDB QSM). Mae'r ddolen i'r modiwlau hyn isod. Mae cyfle hefyd i wneud cais am ardystiad cigyddiaeth drwy'r rhaglen hon.

<https://ahdb.org.uk/trade/meat-education-programme-butchers-processors>

## Atodiad 6 – Diagramau o'r broses logisteg a phecynnu

### Y Broses Logisteg



### Y Broses Pecynnu

